# BWRDD PENSIWN

## DYDD MAWRTH, 18 EBRILL 2023

**PRESENNOL:** Mr J. Jones (Cadeirydd)

**Aelodau'r Bwrdd (Yn y Siambr):**
M. Evans - Cynrychiolydd Aelodau;
P. Ashley-Jones - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau
Y Cynghorydd A. Lenny - Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau;
Y Cynghorydd Wyn Thomas, Cynrychiolydd Cyflogwyr sy'n Aelodau;
M. Rodgers, Cynrychiolydd Pensiynwr sy'n Aelodau;
T. Bowler, Cynrychiolydd o'r Undeb;

**Yn bresennol fel sylwedydd (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd D.E. Williams - Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed;

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn;
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol;
J. Williams, Cyfrifydd Cynorthwyol;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol  (Yn rhithwyr):**
Mr. A Brown - Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, ac o bell: 2:00yp - 3:52yp**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

### 3. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED A GYNHALWYD A 12 IONAWR 2023.

**CYTUNWYD bod cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2023 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.**

### 4. CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED A GYNHALIWYD AR 28 MAWRTH 2023

Cafodd y Bwrdd yr adroddiadau a ystyriwyd gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed ar 28 Mawrth 2023, fel y nodwyd yng nghofnodion 4.1- 4.13 isod, er mwyn eu hystyried a gwneud sylwadau arnynt.

## 4.1. CYNLLUN ARCHWILIO AMLINELLOL 2023

Cafodd y Bwrdd Gynllun Archwilio Amlinellol 2023 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn manylu ar y canlynol:

- Cyfrifoldebau archwilio;
- Tîm archwilio a ffioedd;
- Amserlen archwilio;
- Ansawdd archwilio;
- Newidiadau allweddol i ISA315 a'r effaith bosibl ar y Gronfa.

Nododd y Bwrdd ddiweddariad lle rhoddwyd gwybod iddo, oherwydd pwysau adnoddau yn Archwilio Cymru, mai'r dyddiad cau oedd wedi'i bennu ar gyfer llofnodi cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer 2022/23 oedd 30 Tachwedd 2023, ond roedd ymrwymiad i osod y dyddiad cau hwnnw'n gynharach dros y blynyddoedd sydd i ddod. Yn ogystal, yn dilyn ymgynghoriad ar ffioedd, byddai cynnydd o 4.8% mewn ffioedd ar gyfer rhai archwiliadau ariannol a pherfformiad a chynnydd o 10.2% ar gyfer gwaith archwilio ariannol ISA 315 gan arwain at gynnydd o 15% yn gyffredinol o'r elfen archwilio ariannol o'r ffi. Byddai llythyrau sy'n manylu ar y cynnydd yn cael eu hanfon i bob swyddog adran 151 cyn bo hir.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i dderbyn Cynllun Archwilio Amlinellol 2023.**

## 4.2. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2022 - 31 RHAGFYR 2022

Cafodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf o ran blwyddyn ariannol 2022/23. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022, yn rhagweld tanwariant o £6.9k o ran arian parod.

Dywedwyd mai'r gorwariant a ragwelwyd oedd £1m. Rhagwelwyd y byddai budd-daliadau sy'n daladwy yn £1.4m yn uwch na'r gyllideb a rhagwelwyd y byddai treuliau rheoli £714k yn is na'r gyllideb.

O ran incwm, roedd effaith net cyfraniadau ac incwm buddsoddi yn gynnydd o £7.9m, yn bennaf o ganlyniad i ragweld incwm buddsoddi uwch na'r hyn roeddid wedi cyllidebu ar ei gyfer.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gwariant cyffredinol oedd £108.8m ac mai cyfanswm yr incwm oedd £115.7m, gan arwain i sefyllfa llif arian gadarnhaol o £6.9m.

Gwnaed ymholiad mewn perthynas â'r trosglwyddiadau a'u bod yn ymddangos yn uwch na'r arfer, a dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y byddai'n ymchwilio i'r mater ymhellach.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch enillion cronfa *Black Rock* ac a fyddent yn cael eu cynnal yn y dyfodol, dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, er y byddai'r enillion yn amrywio yn dibynnu ar chwyddiant a chyfraddau llog, ei bod yn braf adrodd bod yr enillion ar hyn o bryd yn uwch na'r disgwyl. Roedd y tîm mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda *Black Rock* er mwyn cadw golwg ar ddatblygiadau.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i nodi'r adroddiad.**

## 4.3. CYLLIDEB 2023-2024

Cafodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf o ran blwyddyn ariannol 2022/23. Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022, yn rhagweld tanwariant o £6.9k o ran arian parod.

Dywedwyd mai'r gorwariant a ragwelwyd oedd £1m. Rhagwelwyd y byddai budd-daliadau sy'n daladwy yn £1.4m yn uwch na'r gyllideb a rhagwelwyd y byddai treuliau rheoli £714k yn is na'r gyllideb.

O ran incwm, roedd effaith net cyfraniadau ac incwm buddsoddi yn gynnydd o £7.9m, yn bennaf o ganlyniad i ragweld incwm buddsoddi uwch na'r hyn roeddid wedi cyllidebu ar ei gyfer.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gwariant cyffredinol oedd £108.8m ac mai cyfanswm yr incwm oedd £115.7m, gan arwain i sefyllfa llif arian gadarnhaol o £6.9m.

Gwnaed ymholiad mewn perthynas â'r trosglwyddiadau a'u bod yn ymddangos yn uwch na'r arfer, a dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y byddai'n ymchwilio i'r mater ymhellach.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch enillion cronfa *Black Rock* ac a fyddent yn cael eu cynnal yn y dyfodol, dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, er y byddai'r enillion yn amrywio yn dibynnu ar chwyddiant a chyfraddau llog, ei bod yn braf adrodd bod yr enillion ar hyn o bryd yn uwch na'r disgwyl. Roedd y tîm mewn cyfarfodydd rheolaidd gyda *Black Rock* er mwyn cadw golwg ar ddatblygiadau.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i nodi'r adroddiad.**

## 4.4. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 RHAGFYR 2022

Bu'r Bwrdd yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed.

Nodwyd ar 31 Rhagfyr, 2022 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £3.2m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i nodi'r adroddiad.**

## 4.5. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Cafodd y Bwrdd adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, cyflogwyr newydd, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP, adroddiadau Ansawdd Data, a llif gwaith.

- Cydnabuwyd bod Ceredigion a Choleg Sir Gâr yn gweithio gyda'i gilydd ynglŷn ag i-connect, ond gofynnwyd am ddiweddariad ar sefyllfa Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu Dyfed Powys fel cyflogwyr sylweddol. Esboniodd y Rheolwr Pensiynau fod dros 95% o aelodau'r cynllun eisoes wedi ymuno ag i-connect ac mai nifer fach o aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol oedd gan y gwasanaeth tân a'r heddlu. Fodd bynnag, roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Heddlu Dyfed-Powys o ran derbyn y data yn y fformat angenrheidiol.

- Cyfeiriwyd at y 'Gwaith sydd angen ei Wneud' a nodwyd yn siartiau bar yr adroddiad. Mewn ymateb i ymholiad a wnaed ar leihau'r gwaith oedd angen ei wneud, esboniodd y Rheolwr Pensiynau mai trosglwyddiadau oedd yr her fwyaf, gan eu bod dan reolaeth aelod y cynllun a'r darparwr gydag amser cwblhau o hyd at chwe mis.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei nodi.**

## 4.6. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2022-23

Cafodd y Bwrdd yr Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd bod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Roedd Polisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed wedi cael ei gymeradwyo gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mawrth 2016. O dan y polisi, roedd yn ofynnol i achosion o dorri'r gyfraith gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau os oes achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun;

- bod yr anallu i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Nododd y Bwrdd fod ychydig achosion wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser. Byddai adroddiad yn cael ei anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â chyflogwr oedd wedi methu taliadau yn rheolaidd ac wedi methu â darparu dogfennau. Roedd gan y cyflogwr hwn £3,433.42 yn ddyledus i'r Gronfa am y cyfnod 1 Medi 2022 – 31 Ionawr 2023.

- Mewn ymateb i ymholiad, esboniodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol pe na bai'r cyflogwr yn talu'r swm yn llawn, byddai'r gronfa'n ysgwyddo'r effaith. Roedd hawl y gweithiwr yn cael ei diogelu gan reoliadau Llywodraeth Ganolog ac felly ni fyddai unrhyw berygl i'r gweithiwr.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 4.7. COFRESTRE RISG

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd fod y Gofrestr Risg yn ddogfen waith sy'n tynnu sylw at yr holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Dywedodd y Bwrdd fod y Gofrestr Risg wedi'i hadolygu a bod y ddwy risg ganlynol wedi'u diwygio:

- DPFOP0010 (Methu denu, rheoli, datblygu, a chadw staff ar bob lefel yn briodol) – roedd y risg heb reolaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu risg uchel (a sgoriwyd yn flaenorol fel risg ganolig) ac roedd y risg dan reolaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu risg ganolig (risg isel yn flaenorol). Roedd rheolaeth ychwanegol wedi ei chynnwys a oedd yn nodi bod polisi recriwtio a chadw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei weithredu;

- DPFOP0017 – roedd natur y risg wedi'i hymestyn o fethu bodloni terfynau amser statudol gan arwain at gymhwyso'r cyfrifon, i risg ehangach a oedd yn cynnwys methu â chadw papurau gweithio cadarn nad oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch cywirdeb y cyfrifon. Roedd rheolaeth ychwanegol wedi'i chynnwys sef presenoldeb yn hyfforddiant Cyfrifon Cronfa Bensiwn CIPFA ac adolygu cyfrifon enghreifftiol Cronfa Bensiwn CIPFA.

- Cyfeiriwyd at DPFOP0009 - *Gorddibyniaeth ar Swyddogion Gweinyddu a Buddsoddi pensiynau allweddol.* Gofynnwyd a ellid gwneud unrhyw waith ychwanegol i leihau'r risg o un ganolig? Esboniodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn fod nifer y staff Pensiynau wedi lleihau dros y blynyddoedd, ac o'r herwydd roedd cynllunio olyniaeth yn mynd i fod yn her. Fodd bynnag, y teimlad oedd bod y risg ganolig yn briodol ynghyd â'r mesurau lliniaru oedd yn eu lle. Dywedwyd hefyd ei bod yn deg dweud bod llawer o gronfeydd ar draws Cymru a Lloegr yn wynebu problemau recriwtio a chadw staff.

Er y gallai hyn fod oherwydd natur arbenigol y maes, dywedwyd y gallai'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fuddsoddi mwy mewn hyfforddiant.

**CYTUNWYD YN UNFYRDOL i nodi adroddiad y gofrestr risg.**

## 4.8. DRAFFT DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU

Cafodd y Bwrdd, er ystyriaeth, y Datganiad Strategaeth Gyllido ddrafft a osodai strategaeth ariannu eglur a thryloyw a fyddai'n nodi sut y bydd rhwymedigaethau pensiwn pob un o gyflogwyr y Gronfa yn cael eu bodloni yn y dyfodol. Dywedwyd yr oeddid wedi ymgynghori â'r holl bartïon â buddiant oedd yn gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Dyfed a bod cyfle wedi'i roi iddynt wneud sylwadau cyn i'r Datganiad gael ei gwblhau a'i fabwysiadu.

- Cyfeiriwyd at yr agwedd ariannol ar Glustnodi Risgiau a Gwrth-fesurau - *Tanberfformio yn y dyfodol o ganlyniad i gymryd rhan yn Null Cyfuno Cymru Gyfan*. Mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â'r hyn y gallai'r risgiau cysylltiedig fod, eglurodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn i Aelodau'r Bwrdd y risgiau ychwanegol mewn perthynas â phenodi rheolwyr.

- Mewn ymateb i sylw ar newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor, esboniodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod aelodaeth y Pwyllgor ar hyn o bryd yn sefydlog yn dilyn trosiant mawr yn dilyn yr Etholiadau yn 2022, gydag Aelodau newydd yn ymgymryd â'r hyfforddiant sy'n angenrheidiol i allu cyflawni'r rôl.

- Wrth gyfeirio at 'Gostau Straen Ymddeoliad Cynnar', gwnaed ymholiad mewn perthynas â'r baich ychwanegol a allai fod ar y Gronfa Bensiwn pe bai'r hinsawdd economaidd bresennol yn parhau, a allai arwain at ragor o bwysau o ran staffio yn dilyn ymddeoliad cynnar neu ddiswyddo gwirfoddol. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol mai'r cyflogwr fyddai'n ysgwyddo'r straen o ran ymddeoliad cynnar. Byddai ymddeoliadau dros yr hyn a fyddai wedi'i gyfrifo fel yr oedran pensiwn arferol yn cael eu hystyried fel rhan o arfarniad achos busnes cyn cyrraedd y gronfa bensiwn.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL nodi Datganiad y Strategaeth Gyllido Ddrafft.**

## 4.9. CYNLLUN BUSNES 2023-2024

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i Gynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 2023-2024, a nodai sut byddai'r Gronfa'n cyflawni ei hamcanion ac a bennai'r cynlluniau o safbwynt marchnata, ariannol a gweithredol.

- Wrth gyfeirio at y Blaenoriaethau a nodir yn y cynllun, soniwyd y byddai'n fuddiol cynnwys manylion ychwanegol fel targedau ac amserlenni. Esboniodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn, gan fod y cynllun yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfan, awgrymwyd bod mwy o fanylion yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau cynnydd. Byddai hyn yn cael ei drafod gyda Phwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i nodi Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2023-24.**

## 4.10. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU 2023-2026

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i Gynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y cyfnod 2023-2026, a oedd yn nodi sut oedd y Gronfa yn mynd i gyflawni ei hamcanion a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gyflawni'r amcanion hynny.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar gael cymeradwyaeth Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, nodi Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2023-26.**

## 4.11. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - DIWEDDARIAD Y GWEITHREDWR

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gerrig milltir Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r Is-gronfeydd ynghyd â Diweddariad Corfforaethol ac Ymgysylltu, gan gynnwys y protocol ymgysylltu â dyddiadau cyfarfodydd allweddol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn diweddariadau ar gerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

## 4.12. CYNLLUN HYFFORDDI

Cafodd y Bwrdd Gynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2022-2023, a oedd yn darparu manylion am gyfarfodydd, digwyddiadau hyfforddi a'r aelodau a'r swyddogion y rhagwelwyd y byddent yn mynychu'r digwyddiadau.

- Gofynnwyd a oedd modd cyflwyno'r cynllun mewn fformat matrics i'w gwneud yn glir pa aelod sydd wedi derbyn pa hyfforddiant. Dywedodd Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn y byddai'r awgrym yn cael ei roi gerbron Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed.
  **CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod Cynllun Hyfforddi Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2021-22 yn cael ei nodi.**

4.13. **COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED A GYNHALIWYD AR 28 MAWRTH 2023**

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL nodi cofnodion drafft cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2023.**

## 5. CYNLLUN GWAITH Y BWRDD PENSIWN 2023

Bu'r Bwrdd yn ystyried Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2023 a oedd yn amlinellu gwaith y Bwrdd Pensiwn drwy gydol 2023 a'r eitemau i'w cyflwyno ym mhob cyfarfod.

**CYTUNWYD bod Cynllun Gwaith y Bwrdd Pensiwn ar gyfer 2023 yn cael ei nodi.**

## 6. MONITRO CYLLIDEB Y BWRDD PENSIWN 1 EBRILL 2022 - 31 MAWRTH 2023

Cafodd y Bwrdd adroddiad Monitro Cyllideb y Bwrdd Pensiwn fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023. Cyfanswm y gwariant gwirioneddol oedd £20.7k. Y gwariant a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £3.5k o danwariant o gymharu â'r gyllideb.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi.**

## 7. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 8. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 RHAGFYR 2022

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod eitem rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**
Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'w hystyried.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL:-**

**8.1 nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022;**

**8.2 nodi, am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, i werthu £50m o ecwiti o bortffolio goddefol y DU a'i ail-fuddsoddi ym mhortffolio Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru, a rhoi awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol ail-gydbwyso'r portffolio, o fewn rheolau ail-gydbwyso llym, er mwyn sicrhau y gall ail-gydbwyso tactegol llai ddigwydd mewn modd amserol.**

## 9. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 RHAGFYR 2022

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod eitem rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Ystyriodd y Bwrdd adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau ers i'r gronfa gychwyn.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022.**

## 10. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 RHAGFYR 2022

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod eitem rhif 7 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiadau rheolwyr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022.

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Rhagfyr 2022;
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch4 2022;
- Partners Group - Adroddiad Chwarterol Ch4 2022;
- Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Rhagfyr 2022;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Rhagfyr 2022.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiadau'r rheolwr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.**

Cyn dod â'r cyfarfod i ben, achubodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i Mr Paul-Ashley Jones am ei gyfraniadau i'r Bwrdd a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol.

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**